

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
11 Tachwedd 2021

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (y cyfeirir atynt ar y cyd fel “y Gorchymynion Gweithdrefn”) yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrrff allweddol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r prosesau caniatâd ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- 1.2 Mae Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgylgoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (y cyfeirir ato fel “y Gorchymyn”), sef testun y memorandwm esboniadol hwn, yn diwygio'r Gorchymynion Gweithdrefn hyn er mwyn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn ‘ymgyngoreion statudol’ (gan gynnwys cyfeiriadau at ‘ymgyngoreion arbenigol’) ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau ar y camau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno. Bydd hyn yn gymwys i geisiadau cynllunio y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu arnynt a cheisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.
- 1.3 Yn ogystal, drwy wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgylgoreion statudol, drwy erthygl 15A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru), mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol. Byddai hyn yn cynnwys:
 - ceisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl;
 - ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio;
 - ceisiadau am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol yn ôl unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo e.e. ceisiadau i ryddhau amodau cynllunio.
- 1.4 Fel ymgylgoreion statudol, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ‘ymateb o sylwedd’ o fewn amserlenni penodedig i geisiadau ymgynghori gan ddatblygwyr ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio a cheisiadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ar y camau ymgynghori ar ôl cyflwyno o'r broses gwneud cais cynllunio (erthyglau 2E a 15E o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) ac erthyglau 10 a 23 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru)). Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub wneud hynny hefyd pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ei gylch yn wreiddiol. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub hefyd baratoi a chyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn cofnodi eu perfformiad wrth gydymffurfio â'r gofynion statudol hyn (erthygl 15F o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) ac

erthygl 24 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru)). Mae'r hyn a olygir gan 'ymateb o sylwedd', yr amserlenni ar gyfer ymateb a'r gofynion o ran cofnodi perfformiad eisoes wedi'u rhagnodi yn y Gorchmynion Gweithdrefn ar gyfer ymgynghoreion statudol presennol.

- 1.5 Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys diwygiadau i'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â 'chorff adnoddau naturiol Cymru' (Cyfoeth Naturiol Cymru) ar faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd. Mae angen y diwygiadau hyn yn sgil penderfyniad i gyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map cyngor datblygu a geir yn TAN 15 ar hyn o bryd. Mae'r Gorchmynion Gweithdrefn yn sicrhau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau ym mharth llifogydd C o'r map cyngor datblygu. Ni fydd y parth hwn yn bodoli yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Felly er mwyn sicrhau bod gan ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru sail gyfreithiol o hyd i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol arfaethedig mewn ardaloedd perygl llifogydd, mae'n rhaid diwygio'r Gorchymyn.
- 1.6 Nid yw'r diwygiadau hyn yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru nac unrhyw gorff arall. Nid yw'r diwygiadau wedi newid natur yr ymatebion ymgynghori sydd eu hangen gan Cyfoeth Naturiol Cymru chwaith.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau sydd eu hangen er mwyn gwneud y Gorchymyn wedi'u cynnwys yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990).

3.2 Mae'r pwerau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch ymgynghoriadau cyn ymgeisio i'w gweld yn adran 61Z o Ddeddf 1990. Mae'r ddarpariaeth honno yn golygu y gallant ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â phersonau penodedig cyn iddynt wneud cais cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau. Rhaid i'r mathau hyn o ddatblygiadau gael eu nodi mewn gorchymyn datblygu.

3.3 Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ôl cyflwyno gan ddefnyddio darpariaethau amrywiol o Ddeddf 1990. Mae adran 59(2)(b) a (3)(a) yn darparu ar gyfer gwneud gorchymynion datblygu sy'n ymdrin â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Mae adran 74(1)(c) yn darparu y gall gorchymyn datblygu gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau penodedig ar gais cynllunio cyn iddynt benderfynu arno. O safbwynt Cymru, mae'r pwerau hyn bellach yn nwylo Gweinidogion Cymru. Mae adran 62R o Ddeddf 1990 yn caniatáu i orchymyn datblygu wneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a gyflwynir iddynt.

3.4 Mae Adran 333(5B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mai'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Ymgynghori o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru)

3.5 Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â chyrff a restrir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw, cyn iddo wneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2(1), 2B a 2D). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cynllunio Lleol ymgynghori â'r cyrff hynny cyn iddo benderfynu ar gais cynllunio (gweler erthyglau 14, 15 a 15ZA).

3.6 Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ond yn berthnasol i geisiadau ar gyfer "datblygiadau mawr", a ddiffinnir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn fel datblygiadau sy'n cynnwys un neu ragor o'r canlynol—
(a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau;
(b) datblygiad gwastraff;

- (c) darparu tai annedd—
- (i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor; neu
 - (ii) pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
- (ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
- (d) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.

3.7 Mae'n rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 4 yr ymgynghorir ag ef ar y cam cyn ymgeisio neu'r cam ar ôl cyflwyno ddarparu ymateb o sylwedd (gweler erthyglau 15A a 15B).

3.8 Yn ogystal, os bydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â chorff a restrir yn Atodlen 4 mewn perthynas â mathau penodol eraill o geisiadau, mae'n rhaid i'r corff hwnnw ddarparu ymateb o sylwedd (gweler adran 100A o Ddeddf 1990 ac erthyglau 15C a 15D). Mae'r ceisiadau y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol iddynt fel a ganlyn:

- ceisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl (o fewn ystyr Adran 92 o Ddeddf 1990);
- ceisiadau am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn ôl unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo;
- ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio (a wnaed o dan Adran 96A o Ddeddf 1990).

3.9 Mae'n ofynnol hefyd i gyrrff a restrir yn Atodlen 4 lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 15F).

Ymgynghori o dan y Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru)

3.10 Yn yr un modd, mae'r Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â chorff a restrir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwnnw, cyn iddo wneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2, 7 a 9). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff hwnnw cyn iddynt benderfynu ar gais cynllunio (gweler erthygl 22).

3.11 Mae'n rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 5 yr ymgynghorir ag ef ar y cam cyn ymgeisio neu'r cam ar ôl cyflwyno ddarparu ymateb o sylwedd (gweler erthyglau 10 a 23).

3.12 Mae'n ofynnol hefyd i gyrrff a restrir yn Atodlen 5 lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 24).

Ychwanegu Awdurdodau Tân ac Achub at Atodlenni 4 a 5

- 3.13 Bydd ychwanegu Awdurdodau Tân ac Achub at Atodlen 4 i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) ac Atodlen 5 i'r Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) yn golygu y bydd yn rhaid i ddatblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar fathau penodol o ddatblygiadau ac y bydd yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymatebion o sylwedd i ymgynghoriadau o'r fath fel y disgrifir uchod. Caiff y mathau o ddatblygiadau y bydd yn rhaid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch, eu nodi yn yr Atodlenni. Fel ymgynghoreion statudol, byddai'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub hefyd ddarparu'r adroddiadau blynyddol gofynnol i Weinidogion Cymru fel y disgrifir uchod.
- 3.14 Rhoddwyd trefniadau trosiannol ar waith i ddatblygwyr er mwyn ystyried yr amser sydd ei angen i baratoi cais ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a nodwyd a rhoi digon o rybudd i Awdurdodau Tân ac Achub. Dyluniwyd camau gwahanol y broses weithredu er mwyn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i addasu i'r gofynion ac ymglyfarwyddo â cheisiadau a wneir yn ystod y broses, drwy gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio â datblygwyr cyn cael ceisiadau i ymgynghori gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 3.15 O ran ceisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt) ni fydd angen ymgynghori cyn nac ar ôl cyflwyno os hysbysir Gweinidogion Cymru (o dan Erthygl 5 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru)) am y cais arfaethedig cyn 24 Ionawr 2022 hyd yn oed os caiff y cais ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwnnw. Os ceir hysbysiad am gais ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai angen cynnal ymgynghoriadau cyn ac ar ôl cyflwyno. Bydd yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad a gynhelir mewn perthynas â cheisiadau o'r fath ar neu ar ôl 24 Ionawr 2022.
- 3.16 O safbwynt ceisiadau cynllunio y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu arnynt, bydd y darpariaethau perthnasol yn dod i rym fel a ganlyn:

Cam ymgynghori cyn ymgeisio:

- Gall datblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn wirfoddol o 24 Ionawr 2022 ymlaen (tri mis ar ôl gosod).
- Bydd yn ofynnol bod datblygwyr wedi cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio mewn perthynas ag unrhyw gais a gyflwynir i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar neu ar ôl 25 Ebrill 2022 (chwe mis ar ôl gosod). Caiff ceisiadau a gyflwynir cyn y dyddiad hwnnw eu dilysu beth bynnag (h.y. hyd yn oed os nad yw'r Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio ffurfiol yn cynnwys tystiolaeth o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub).
- Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw gais am ymgynghoriad cyn ymgeisio a ddaw i law gan ddatblygwyr ar neu ar ôl 24 Ionawr 2022 (tri mis ar ôl gosod).

Y cam gwneud cais cynllunio:

- Lle bo cais yn cynnwys datblygiad penodedig, dim ond os caiff caniatâd ei roi ar neu ar ôl 25 Ebrill 2022 (chwe mis ar ôl gosod) y bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol fod wedi ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol a bydd yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i'r ceisiadau ymgynghori hyn.

Ymatebion o sylwedd gan Awdurdodau Tân ac Achub:

- Os bydd datblygwr, Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru yn dewis ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub ar neu ar ôl 24 Ionawr, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub ymateb yn unol â darpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth.

Ychwanegu Cyfoeth Naturiol Cymru at Atodlenni 4 a 5

- 3.17 Nid yw'r diwygiadau i'r Gorchymyn mewn perthynas â pherygl llifogydd a chorff adnoddau naturiol Cymru yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol. Daw'r rhain i rym ar 1 Rhagfyr 2021 a byddant yn gymwys i brosesau ymgynghori cyn ymgeisio a phrosesau ymgynghori ar ôl cyflwyno o'r dyddiad hwnnw. Y dyddiad y daw'r diwygiadau hyn i rym yw'r dyddiad y daw'r fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn weithredol. Bydd y rhain yn destun cyfnod arweiniol o naw wythnos, o 28 Medi, pan fyddant ar gael yn gyhoeddus. Bydd y cyfnod arweiniol hwn yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr i wneud paratodau cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr.
- 3.18 Gellir ystyried y penderfyniad i gyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map cyngor datblygu yn newid gweithdrefnol yn y lle cyntaf. Mae'r ddau fap yn dangos ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ond maent yn defnyddio parthau â diffiniadau ac enwau gwahanol. Elfen bwysig o barhad rhwng y ddau fap yw eu bod yn cael eu diweddarau'n gyson. Roedd y map cyngor datblygu yn cael ei ddiweddarau bob chwe mis a bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dilyn yr un drefn. Mae defnyddwyr y system gynllunio yn gyfarwydd â defnyddio map sy'n newid o bryd i'w gilydd heb ddefnyddio trefniadau trosiannol. Nid ystyrir bod cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map cyngor datblygu yn newid mwy sylweddol nag y gallai unrhyw ddiweddariad i'r map cyngor datblygu fod.

4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Awdurdodau Tân ac Achub

- 4.1 Argymhellodd y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl trychineb Tŵr Grenfell ym mis Mehefin 2017, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub chwarae rôl fwy amlwg yn y gwaith o gynllunio, dylunio a chodi adeiladau preswyl uchel iawn. Mae'r Gorchymyn yn ymateb i'r argymhelliad hwn drwy wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion

statudol ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r broses gwneud cais cynllunio a'r broses gwneud cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Y nod yw sicrhau bod cyngor arbenigol gan Awdurdodau Tân ac Achub ar ddiogelwch tân yn llywio prosesau i baratoi ceisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau y tybir eu bod yn peri risg uwch o dân, a'r prosesau sydd ar waith i benderfynu arnynt. Ymwneud â sicrhau cyflenwadau dŵr ar gyfer diffodd tân a mynediad i safleoedd ar gyfer peiriannau tân ac achub y bydd y cyngor hwnnw yn bennaf.

- 4.2 Yn ogystal, bydd meddu ar wybodaeth am ddatblygiadau sy'n peri risg uwch o dân yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i gynllunio sut i ddyrannu adnoddau'n fwy effeithiol yn yr hirdymor.
- 4.3 Ar hyn o bryd, ni chaiff Awdurdodau Tân ac Achub eu rhestru yn y Gorchmynion Gweithdrefn fel ymgynghoreion statudol y mae'n rhaid ymgynghori'n benodol â nhw ar geisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yn hytrach, gall datblygwyr a chyrrff penderfynu (Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru) ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ôl eu disgrisiwn. Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdodau ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymholiad o'r fath.
- 4.4 Bydd y Gorchmyn yn diwygio'r Gorchmynion Gweithdrefn fel ei bod yn ofynnol ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer mathau o ddatblygiadau sy'n peri risg uwch o dân.
- 4.5 Yn benodol, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol cyn cyflwyno ei gais, ystyried sylwadau'r Awdurdod a chadarnhau mewn adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio p'un a yw'r materion a godwyd wedi cael eu trin ac, os felly, sut. Mae adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio yn ofyniad dilysu ar gyfer ceisiadau cynllunio a bydd yn rhan o'r cais terfynol a gyflwynir.
- 4.6 Mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y mathau canlynol o ddatblygiadau:
- datblygiad gwastraff (fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru));
 - darparu tai annedd pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor neu pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor;
 - darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor;
 - datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy;
- 4.7 Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (neu Weinidogion Cymru) ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn eu helpu i benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n peri risg uwch o dân. Bydd pob cais ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a restrir uchod yn destun ymgynghoriad, yn ogystal â'r datblygiadau canlynol:

- datblygiadau sy'n darparu 10 neu ragor o fflatiau (boed hynny drwy gynyddu nifer y fflatiau mewn adeilad sy'n bodoli eisoes neu fel arall);
- ddatblygiadau sy'n darparu llety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd, nad ydynt wedi eu cynnwys mewn tai annedd neu fflatiau, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridorau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas; neu
- ddatblygiadau sy'n darparu llety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd, wedi eu cynnwys mewn tai annedd neu fflatiau yn cael ei ddefnyddio fel tŷ amfeddiannaeth, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridorau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas.

- 4.8 Yn unol â'r dull gweithredu presennol ar gyfer ymgynghoreion statudol, mater i Awdurdodau Cynllunio Lleol fydd penderfynu a fyddant yn ymgynghori ymhellach ag Awdurdodau Tân ac Achub ar unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol.
- 4.9 Pan ymgynghorir ag Awdurdod Tân ac Achub ar gais (boed hynny gan ddatblygwr, Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru), bydd yn rhaid iddo ddarparu 'ymateb o sylwedd'. Fel y nodwyd uchod, mae'r gofyniad hwn yn gymwys i bob ymgynghorai statudol, ac mae'r amserlenni ymateb a'r diffiniad o 'ymateb o sylwedd' wedi'u nodi yn y Gorchmynion Gweithdrefn.
- 4.10 Mae'r mathau o ddatblygiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Gweinidogion Cymru a datblygwyr ymgynghori â'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch yn ehangach na'r rhai a argymhellir gan y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau (h.y. adeiladau uchel iawn cyfyngedig) ac yn cwmpasu ystod ehangach o ddatblygiadau a all beri pryder o ran diogelwch tân. Y rheswm am hyn yw bod llawer o'r risgiau i ddiogelwch yn gymharol debyg ni waeth beth fo maint yr adeilad.

Datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd

- 4.11 Diben ac effaith fwriadedig y diwygiadau yw sicrhau parhad yn y gofyniad presennol i 'gorff adnoddau naturiol Cymru' (Cyfoeth Naturiol Cymru) roi cyngor ar geisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd (o afonydd a'r môr). Yn benodol, ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a ddangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a ddifinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 fel a ganlyn:

Parth y Map Llifogydd ar gyfer Diffiniad Cynllunio

Parth 3 (afonydd a'r môr)	Perygl o fwy nag 1:100 (afonydd) / 1:200 (y môr) yn ogystal â newid hinsawdd
Parth 2 (afonydd a'r môr)	Perygl o fwy nag 1:100/1:200 yn ogystal â newid hinsawdd ac 1:1000 yn ogystal â newid hinsawdd
Parthau Amddiffynnol TAN 15	Ardaloedd ym Mharthau 2 a 3 (afonydd a'r môr) lle mae gan amddiffynfeydd lefel ddiogelwch safonol o 1 mewn 100 o leiaf yn ogystal â newid hinsawdd

5 Ymgynghori

Awdurdodau Tân ac Achub

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 28 Gorffennaf a 23 Hydref 2020 ar y Rheoliadau drafft a'r canllawiau cysylltiedig. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, y Prif Swyddogion Tân, Swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau yr Awdurdodau Tân ac Achub, Undeb y Brigadau Tân ac Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn. Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 5.2 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol (atebodd 94% 'Ydw/Ydyn' neu 'Ydw/Ydyn Yn amodol ar sylwadau'). Cafwyd cefnogaeth gref gan bob sector.
- 5.3 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r mathau arfaethedig o ddatblygiadau sy'n sbarduno'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ond awgrymodd rhai ymatebion y gellid cynnwys mathau eraill o ddatblygiadau hefyd (cartrefi gofal bach, gwystai bach ac adeiladau â chladin dros ddau lawr). Roedd ychydig o gefnogaeth i hyblygrwydd fel y gall y mathau o ddatblygiadau gael eu diwygio ar sail tystiolaeth.
- 5.4 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o ddefnyddio 10 neu ragor o fflatiau neu lety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd fel sbardun i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ond awgrymwyd dulliau gweithredu eraill mewn rhai ymatebion. Roedd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi'u hollti ar y mater.
- 5.5 Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru'n nodi y bydd Awdurdodau Penderfynu yn gallu parhau i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn wirfoddol ar ddatblygiadau islaw'r trothwy penodedig, neu fathau eraill o geisiadau, a gall Awdurdodau Tân ac Achub hefyd gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Penderfynu ar geisiadau y tu allan i'r trothwy penodedig ar sail anstatudol. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff y mwyafrif o'r datblygiadau hyn eu cwmpasu gan y trothwyon arfaethedig. Am y rhesymau hyn, ni chaiff y trothwyon eu newid.

- 5.6 Roedd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol o'r farn mai ychydig o effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar eu hadnoddau. Credir bod yr angen am ymateb o sylwedd amserol a chywir yn hanfodol er mwyn lliniaru unrhyw effaith ar adnoddau.
- 5.7 Roedd pob sector yn cytuno y bydd y cynigion yn golygu y bydd angen adnoddau ychwanegol ar Awdurdodau Tân ac Achub ac y gallai'r cynigion effeithio ar adnoddau presennol yr Awdurdodau oni chânt gyllid pellach. Roedd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cytuno y byddai angen digon o adnoddau ar Awdurdodau Tân ac Achub i'w galluogi i ymateb mewn modd amserol, clir a chryno. Nodwyd bod angen i Awdurdodau Tân ac Achub gael hyfforddiant addas ar ymateb i ymgynghoriadau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys asesiad o'r costau amcangyfrifedig i Awdurdodau Tân ac Achub.
- 5.8 Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gweithredu'r cynnig yn creu rhai costau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub ond, ar y cyfan, ystyrir y caiff y costau hyn eu cydbwyso'n gyffredinol gan yr arbedion a ddaw yn sgil mwy o effeithlonrwydd yn y broses benderfynu a gwell diogelwch tân hirdymor.
- 5.9 Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael yn:
<https://llyw.cymru/ymgynghorin-statudol-ag-awdurdodau-tan-ac-achub-yn-ystod-y-broses-o-reoli-datblygiadau? ga=2.205657747.1613042593.1634287373-1115937830.1624440204>

Datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd

- 5.10 Nid yw'r diwygiadau i'r Gorchymyn wedi bod yn destun ymgynghoriad penodol ac uniongyrchol. Ymgynghorwyd ar y cynnig i gyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n gwneud y diwygiadau'n angenrheidiol, fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15 rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020. Cafodd y map newydd ei groesawu a'i gydnabod fel cam pwysig yn y broses o ddiweddarau'r cyngor cyffredinol ar gynllunio a pherygl llifogydd. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel y gellir ymgynghori'n anffurfiol arno rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021. Cadarnhaodd yr ymarfer hwn ymhellach fod cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map cyngor datblygu yn ddilys.
- 5.11 Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael yn <https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-15-datblygu-llifogydd-ac-erydu-arfordirol>

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

1. Awdurdodau Tân ac Achub

Yr opsiynau

1.1 Ystyriwyd dau opsiwn:

- **Opsiwn 1** – Gwneud dim (h.y. parhau â'r trefniadau dewisol presennol lle mae datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru yn dewis a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ai peidio, ac nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb o fewn amserlen statudol benodol i geisiadau ymgynghori).
- **Opsiwn 2** – Cyflwyno Gorchymyn diwygio i wneud y canlynol:
 - gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r broses,
 - ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol
 - gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i geisiadau ymgynghori o fewn cyfnod penodedig.

Cyfiawnhad dros ddau opsiwn

- 1.2 Ni chynigir trydydd opsiwn gan nad ystyrir bod ffordd resymol arall o gyflawni bwriad y polisi.

Costau a Buddiannau

Opsiwn 1 – Gwneud dim (h.y. parhau â'r trefniadau dewisol presennol lle mae datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru yn dewis a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ai peidio, ac nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb o fewn amserlen statudol benodol i geisiadau ymgynghori).

Disgrifiad

- 1.3 Ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Byddai'n golygu y byddai datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru yn gallu parhau i ddewis a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ai peidio ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r broses gwneud cais cynllunio a'r broses gwneud cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Byddai Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn gallu parhau i ddewis a fyddant yn ymateb i geisiadau ymgynghori ai peidio, ac ni fyddai amserlenni statudol ar gyfer darparu ymatebion na gofyniad i fonitro eu perfformiad wrth ymateb.

Costau

- 1.4 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac fel y cyfryw, nid oes costau na buddiannau ychwanegol i'r opsiwn hwn. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa bresennol.

Awdurdodau Tân ac Achub

- 1.5 Nid yw'r opsiwn hwn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub. Byddai datblygwyr a chyrrff penderfynu (Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru) yn parhau i ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub, ac fel arall, yn ôl eu disgrisiwn ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno, ac os bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu ymateb o sylwedd pan ymgynghorir â nhw, na monitro eu perfformiad wrth ymateb.
- 1.6 Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i ddewis y ceisiadau yr hoffent ddarparu ymateb yngynghori yn eu cylch, gan ddewis ceisiadau o'r rhestrau ceisiadau cynllunio wythnosol a gyhoeddir gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol neu drwy ymateb i geisiadau ymgynghori gan Awdurdodau Cynllunio Lleol neu Lywodraeth Cymru. Byddant hefyd yn parhau i ddewis a fyddant yn ymateb i unrhyw geisiadau ymgynghori gan ddatblygwyr ai peidio.
- 1.7 Cadarnhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i Lywodraeth Cymru fod ymatebion presennol Awdurdodau Tân ac Achub i ymgynghoriadau ar y cam cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno wedi'u cyfyngu i sylwadau ar fynediad i safleoedd ar gyfer cyfarpar diffodd tân a chyflenwadau dŵr at ddibenion diffodd tân.
- 1.8 Amcangyfrifir bod angen 0.5 diwrnod (3.6 awr) o amser staff ar radd Rheolwr Gwylfa B (WMB)¹ (cyflog gros blynyddol o £55,014²) fesul ymateb er mwyn ystyried y datblygiad arfaethedig, cysylltu â'r datblygwr neu'r corff penderfynu, a

¹ Amcangyfrifodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mai'r radd staff hon fyddai'n gyfrifol am ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i ymgynghoriadau.

² Darparwyd yr wybodaeth am gyflogau gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gynnwys argostau cyflogwr

darparu ymateb ysgrifenedig. Mae'r amcangyfrif hwn o amser a chyfradd fesul awr gros³ Rheolwr Gwylfa B yn arwain at gost o tua £125 fesul ymateb.

- 1.9 Mae'r amcangyfrif amser o 3.6 awr fesul ymateb yn cyfateb yn fras i ganolrif yr amrediad amser presennol sydd ei angen i ddarparu ymateb i ymgynghoriad fel yr amcangyfrifwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (2.5 i 5 awr fesul cais). Mae'r amcangyfrifon o ran amser a gradd yn cyfateb yn fras i ofynion adnoddau rhai ymgynghoreion statudol presennol sy'n ymateb i ymgynghoriadau ar faterion penodol a chyfyngedig.

Awdurdod Tân ac Achub	Nifer cyfartalog yr ymatebion cynllunio a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	70 y flwyddyn ar gyfartaledd (87 yn 2019/20 a 53 yn 2018/19)
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin	7.5 y flwyddyn ar gyfartaledd (cyfanswm o 22)
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Ni ddarparwyd data ac felly tybir y senario waethaf o 42 y flwyddyn drwy gymhwyso cyfradd ymateb 30% Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (o 2018 i 2020) i nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn penderfynu arnynt bob blwyddyn (137).

Tabl 1 – Nifer cyfartalog yr ymatebion cynllunio a ddarperir gan Awdurdodau Tân ac Achub

- 1.10 Yn seiliedig ar wybodaeth gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, amcangyfrifir tua 120 o ymgynghoriadau'r flwyddyn ar gyfartaledd ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru (gweler Tabl 1), sy'n rhoi cyfanswm cost flynyddol o tua £15,000 i Awdurdodau Tân ac Achub.

Awdurdod Tân ac Achub	Cyfran ranbarthol yr ymgynghoriadau cyfartalog a ddarperir bob blwyddyn gan Awdurdodau Tân ac Achub	Cost flynyddol amcangyfrifedig o dan Opsiwn 1
Gwasanaeth Tân ac Achub	35%	£5,200

³ £55,014 cyflog blynyddol / 220 diwrnod gwaith = £250 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £34.54 (cost fesul awr)

Gogledd Cymru ⁴		
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ⁵	6%	£1000
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ⁶	58%	£8,700

Tabl 2 – Cost flynyddol fesul Awdurdod Tân ac Achub am ddarparu ymatebion ymgynghori dros y cyfnod a aseswyd⁷.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.11 Nid yw'r opsiwn hwn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gan y byddent yn parhau i ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ôl disgrisiwn. Ar hyn o bryd, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol naill ai'n ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau cynllunio neu geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, ar sail eu barn ar bob cynnig, neu'n cael sylwadau gwirfoddol gan Awdurdodau Tân ac Achub.
- 1.12 Amcangyfrifir bod ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn costio cyfanswm o tua £35.00 fesul cais i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd yn cymryd 30 munud ar gyfartaledd i swyddog gweinyddol (cyflog gros blynyddol o £25,451⁸) hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub, a 60 munud i uwch swyddog cynllunio (cyflog gros blynyddol o £41,518⁹) gysylltu â'r Awdurdod Tân ac Achub ac ystyried ei ymateb wrth ddod i benderfyniad. Deellir o ohebiaeth ag Awdurdodau Cynllunio Lleol mai yn electronig y caiff ymgynghoriadau ag ymgynghoreion statudol neu gyrff cyhoeddus eraill eu cynnal yn bennaf er mwyn bod mor effeithlon â phosibl; felly, nid oes unrhyw gostau postio/argraffu wedi cael eu cynnwys.

⁴ Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint ac Eryri.

⁵ Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog (75% o'r ardal).

⁶ Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Bannau Brycheiniog (25% o'r ardal).

⁷ Y cyfnod a aseswyd yw 2017-2020.

⁸ Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Cynorthwydd Technegol/Swyddog Cymorth Cynllunio' o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

⁹ Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Uwch Swyddog Cynllunio' o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

1.13 Ni cheir cofnod o nifer yr achosion y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch. Ar y sail hon, amcangyfrifir y byddai tua 90% o'r 120 o ymatebion a ddarperir bob blwyddyn ar gyfartaledd gan Awdurdodau Tân ac Achub wedi cael eu cyflwyno mewn ymateb i gais gan Awdurdod Cynllunio Lleol (byddai'r 10% arall wedi cael eu cyflwyno mewn ymateb i geisiadau gan ddatblygwyr). Mae'r amcangyfrif hwn yn rhoi cyfanswm o 108 o ymgynghoriadau a gynhelir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ag Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru sydd, o'i luosi â chyfraddau fesul awr gros y staff perthnasol¹⁰, yn rhoi cyfanswm cost flynyddol amcangyfrifedig o tua £4,000 y flwyddyn i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyd (£160 fesul Awdurdod).

Llywodraeth Cymru

- 1.14 Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn prosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ran Gweinidogion Cymru. Nid yw'r opsiwn hwn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i PCAC am y byddai'n parhau i ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ôl ei disgresiwn. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r PCAC naill ai'n ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ôl ei disgresiwn, neu'n cael sylwadau gwirfoddol gan Awdurdodau Tân ac Achub.
- 1.15 Amcangyfrifir bod ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn costio cyfanswm o tua £60.00 fesul cais i'r PCAC ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd hi'n cymryd 30 munud i swyddog gweinyddol o'r PCAC (cyflog gros blynyddol o £28,329) hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub a chydweithio ag ef a 60 munud i arolygydd o'r PCAC (cyflog gros blynyddol o £80,906) ddehongli a chrynhoi ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r PCAC yn cynnal pob ymgynghoriad ag ymgynghoreion statudol neu gyrff cyhoeddus eraill yn electronig; felly, nid oes unrhyw gostau postio/agraffu wedi cael eu cynnwys.
- 1.16 Hyd yma, ni fu angen i'r PCAC ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn ei helpu i benderfynu ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac, felly, gallai'r gost o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub for mor isel â sero i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn. Pe bai'r PCAC yn penderfynu ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar bob cais, byddai'n costio cyfanswm o tua £180 y flwyddyn ar gyfartaledd i'r Arolygiaeth, yn seiliedig ar gyfartaledd o dri chais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd

¹⁰ Swyddog Gweinyddol Awdurdod Cynllunio Lleol:- £25,451 costau blynyddol gros / 220 diwrnod gwaith = £115 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £15 (cost fesul awr). Uwch Swyddog Cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol:- £41,518 costau gros / 220 = £188 / 7.24 = £26 (cost fesul awr).

Cenedlaethol¹¹ y flwyddyn, fel y cafwyd rhwng 2016 a mis Ebrill 2021, a chyfraddau fesul awr gros y staff perthnasol¹².

Y Diwydiant Datblygu

- 1.17 O dan yr opsiwn hwn, mae ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio yn fater dewisol i ddatblygwyr, felly ni fyddant yn mynd i unrhyw gostau oni bai eu bod yn dewis ymgysylltu ag ymgynghoreion ar y cam cyn ymgeisio. Os na fyddant yn dewis ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub, gall fod costau ynghlwm wrth orfod diwygio eu cais i fynd i'r afael â materion diogelwch tân a all godi yn ddiweddarach yn y broses ddatblygu a'i gwneud yn ofynnol iddynt wneud diwygiadau i'w datblygiad.
- 1.18 Nid oes cost safonol i ddatblygwyr am gynnal ymgynghoriad, gan y bydd costau ymarferion ymgysylltu rhwng Awdurdodau Tân ac Achub a datblygwyr yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod y cynnig a nifer y staff sy'n gweithio ar yr ymarfer. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen newid rhai cynigion datblygu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Awdurdodau Tân ac Achub.
- 1.19 Fel arfer, bydd datblygwyr yn penodi ymgynghorwyr cynllunio i gynnal unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio. Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog¹³ ymgynghorydd cynllunio (£58 yr awr) ac amcangyfrif y bydd hi'n cymryd tua 60 munud ar gyfartaledd i hysbysu Awdurdodau Tân ac Achub, cydweithio â nhw, ystyried eu hymateb i'r cais a'i gofnodi mewn adroddiad, amcangyfrifir bod ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar gynigion datblygu yn costio tua £60 fesul cais i'r datblygwr.
- 1.20 Nid oes data cyhoeddus ar gael sy'n cofnodi nifer yr achosion y mae datblygwyr wedi ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch. Gan fod ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn fater dewisol i'r datblygwr, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai dim ond mewn nifer bach iawn o achosion mae hyn yn digwydd, ar y mwyaf. Ar y sail hon ac ar sail y senario waethaf, rhagwelir y byddai tua 10% o'r 120 o ymatebion a ddarperir bob blwyddyn ar gyfartaledd gan Awdurdodau Tân ac Achub¹⁴ wedi cael eu cyflwyno mewn ymateb i gais gan ddatblygwr. Mae'r amcangyfrif hwn yn rhoi cyfanswm o 12 o ymgynghoriadau rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn yng Nghymru sydd, yn ei dro, yn rhoi cyfanswm cost flynyddol o tua £700 i'r diwydiant datblygu.

¹¹ Cadarnhaodd yr Arolygiaeth Gynllunio y cafodd 16 o geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno iddi rhwng mis Gorffennaf 2016 a 12 Mai 2021. 16 / 5 mlynedd = 3.2 ar gyfartaledd bob blwyddyn (wedi'i dalgrynnu i 3).

¹² Swyddog Gweinyddol o'r Arolygiaeth Gynllunio:- £28,329 costau blynyddol gros / 220 diwrnod gwaith = £129 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £18 (cost fesul awr). Arolygydd o'r Arolygiaeth Gynllunio:- £80,906 costau blynyddol gros / 220 diwrnod gwaith = £368 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £50 (cost fesul awr).

¹³ Yn seiliedig ar fframwaith caffael gwasanaethau technegol a phroffesiynol y sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru

¹⁴ 90% o'r 120 o ymatebion a ddarperir gan Awdurdodau Tân ac Achub (gweler paragraff 6.13 am fwy o wybodaeth).

Buddiannau

Awdurdodau Tân ac Achub

- 1.21 Gall Awdurdodau Tân ac Achub barhau i ddefnyddio eu disgrisiwn i ddewis pa geisiadau yr hoffent ddarparu ymatebion arnynt a rheoli eu costau yn unol â hynny. Fodd bynnag, ni fyddai gan Awdurdodau Tân ac Achub fframwaith clir o hyd ynghylch pa geisiadau y dylent ddarparu ymatebion arnynt. O ganlyniad, byddai'r dull gweithredu dewisol presennol gan ddatblygwyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol/Llywodraeth Cymru yn parhau, sy'n rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb ar Awdurdodau Tân ac Achub i fonitro rhestrau ceisiadau Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn penderfynu pa gynigion y dylent wneud sylwadau arnynt.
- 1.22 Yn absenoldeb proses ymgysylltu sydd wedi'i diffinio'n glir, byddai Awdurdodau Tân ac Achub yn llai tebygol o ymgysylltu'n gynhyrchiol â'r system gynllunio gan arwain at y canlynol:
- mwy o risgiau gweithredol i Awdurdodau Tân ac Achub wrth i ddatblygiadau amrhiodol o safbwynt diogelwch tân gael eu cymeradwyo;
 - llai o ddealltwriaeth ymhlith Awdurdodau Tân ac Achub o ddatblygiadau yn eu hardaloedd a'r gofynion cysylltiedig o ran adnoddau.
- 1.23 Byddai llai o ymgysylltu rhwng Awdurdodau Tân ac Achub a datblygwyr ar y cam cyn ymgeisio yn arwain at fwy o risg y bydd gwariant yr Awdurdodau ar adnoddau yn cynyddu pe baent yn dewis gwneud sylwadau a gwrthwynebu datblygiad ar y cam penderfynu neu ofyn am ddiwygiadau ac amodau ar ôl i gais gael ei gyflwyno er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch tân.
- 1.24 Ni fyddai Opsiwn 1 yn bodloni'r argymhelliad i ymgysylltu'n ffurfiol ag Awdurdodau Tân ac Achub cyn ceisio cymeradwyaeth gynllunio ar gyfer adeiladau risg uwch, fel y nodwyd yn Adolygiad Annibynnol y Fonesig Judith Hackitt o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân¹⁵ a phapur gwyn Llywodraeth Cymru 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'¹⁶.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.25 Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i ddefnyddio eu disgrisiwn i ddewis pa geisiadau yr hoffent ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch a rheoli eu costau yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad oes gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol i nodi pryderon posibl o ran diogelwch tân. At hynny, am nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i ddatblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio

¹⁵ Building a Safer Future Independent Review of Building Regulations and Fire Safety: Final Report (Mai 2018)

¹⁶ [Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad \(llyw.cymru\)](#)

ar gyfer datblygiadau mawr, na chynnwys eu hadborth mewn Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, mae mwy o risg y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn methu problemau diogelwch tân posibl a allai sbarduno'r angen i ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub.

- 1.26 Gallai methiant i ymgynghori'n ddigonol ag Awdurdodau Tân ac Achub arwain at y canlynol:
- problemau diogelwch tân hirdymor y gallai'r system gynllunio fod wedi eu trin;
 - gwrthwynebiadau a cheisiadau am ddiwygiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub yn hwyr yn y broses benderfynu, a fyddai'n galw am fwy o adnoddau i'w trin na phe bai camau wedi cael eu cymryd i ymgynghori â'r Awdurdodau yn gynharach yn y broses, ac a allai arwain at oedi cyn penderfynu ar geisiadau.

Llywodraeth Cymru

- 1.27 Bydd yr PCAC yn parhau i allu dewis pa geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch a rheoli ei chostau yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad oes gan yr PCAC yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol i nodi pryderon posibl o ran diogelwch tân.
- 1.28 Gallai methiant i ymgynghori'n ddigonol ag Awdurdodau Tân ac Achub arwain at y canlynol:
- problemau diogelwch tân hirdymor y gallai'r system gynllunio fod wedi eu trin;
 - gwrthwynebiadau a cheisiadau am ddiwygiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub yn hwyr yn y broses benderfynu, a fyddai'n galw am fwy o adnoddau i'w trin na phe bai camau wedi cael eu cymryd i ymgynghori â'r Awdurdodau yn gynharach yn y broses, ac a allai arwain at oedi cyn penderfynu ar geisiadau.

Y Diwydiant Datblygu

- 1.29 Bydd datblygwyr yn parhau i ddefnyddio eu disgresiwn i ddewis p'un a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau, sy'n rhoi hyblygrwydd iddynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad oes gan ddatblygwyr yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol i nodi ac ystyried pryderon posibl o ran diogelwch tân sy'n galw am asesiad gan Awdurdod Tân ac Achub.
- 1.30 Gallai methiant i ymgynghori'n ddigonol ag Awdurdodau Tân ac Achub arwain at wrthwynebiadau neu geisiadau am ddiwygiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub yn hwyr yn y broses benderfynu, a byddai angen mwy o adnoddau ar ddatblygwyr i ymdrin â'r rhain, drwy newidiadau i'r cynnig datblygu, na phe baent wedi ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub yn gynharach yn y broses gynllunio. Gallai hyn arwain at oedi cyn penderfynu ar y cais cynllunio, a gallai hyd yn oed arwain at wrthod cais ar sail diogelwch tân.

- 1.31 Mae risg i'r datblygiad yn gyffredinol yn sgil problemau diogelwch tân a gaiff eu nodi fel rhan o gyfundrefnau rheoliadol eraill, fel rheoliadau adeiladu, neu broblemau sydd wedi codi wrth ddefnyddio neu weithredu'r datblygiad, a all olygu bod yn rhaid gwneud newidiadau i'r datblygiad drwy ddiwygiadau i'r caniatâd presennol neu ganiatâd cynllunio newydd.
- 1.32 Yn ogystal, gall y risgiau o ran diogelwch tân sy'n gysylltiedig â'r datblygiad beri risg i enw da'r datblygwr.

Opsiwn 2 – Cyflwyno Gorchymyn diwygio i wneud y canlynol:

- **gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r broses;**
- **ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol;**
- **gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i geisiadau ymgynghori o fewn cyfnod penodedig.**

Disgrifiad

- 1.33 Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r broses.
- 1.34 Ar y cam cyn ymgeisio, byddai Opsiwn 2 yn golygu y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ac ystyried eu sylwadau ar gynigion datblygu sy'n cynnwys datblygiadau mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol os ydynt yn cyd-fynd â'r disgrifiad o ddatblygiad a nodir yn y ddeddfwriaeth, cyn iddynt gyflwyno eu cais.
- 1.35 Ar y cam ar ôl cyflwyno, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ac ystyried eu sylwadau ar gynigion datblygu sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad penodedig o ddatblygiad, er mwyn eu helpu i benderfynu ar geisiadau cynllunio neu geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- 1.36 Bydd hyn hefyd yn golygu y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb os bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dewis ymgynghori â nhw ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn eu cylch yn wreiddiol, megis

ceisiadau i gymeradwyo diwygiadau ansylweddol, materion a gadwyd yn ôl neu gyflawni amodau cynllunio.

- 1.37 Fel yn achos ymgynghoriad statudol presennol, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu 'ymateb o sylwedd' i'r ceisiadau ymgynghori hyn o fewn amserlenni penodedig, a chyflwyno adroddiad monitro perfformiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae manylion y gofynion penodol hyn wedi'u rhagnodi eisoes yn y Gorchmynion Gweithdrefn.

Costau

Awdurdodau Tân ac Achub

- 1.38 Ystyrir bod y cynnig yn cyflwyno rhai costau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub, gan y bydd angen iddynt ddefnyddio mwy o adnoddau i graffu ar gynigion datblygu na fyddent wedi ymgynghori arnynt neu na fyddent wedi dewis ymateb iddynt yn y gorffennol.
- 1.39 At hynny, pan ymgynghorir ag Awdurdodau Tân ac Achub o dan yr amgylchiadau penodedig, bydd yn rhaid iddynt ddarparu 'ymateb o sylwedd' o fewn amserlenni statudol a chyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar eu perfformiad wrth gydymffurfio â'u gofynion statudol¹⁷.
- 1.40 Wrth drafod ag Awdurdodau Tân ac Achub, maent wedi cadarnhau y byddant yn parhau i ganolbwyntio ar y materion canlynol yn eu hymatebion i ymgynghoriadau:
- Mynediad – sicrhau mynediad digonol i safle ar gyfer nifer a mathau priodol o beiriannau'r Awdurdodau Tân ac Achub;
 - Dŵr – sicrhau cyflenwad dŵr digonol i'r safle ar gyfer ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i dân.
- 1.41 Gan y bydd ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i ymgynghoriadau yn parhau i ganolbwyntio ar faterion penodol a chyfyngedig, rhagwelir y bydd y radd staff a'r amser a gymerir i ddarparu ymateb i ymgynghoriad ar hyn o bryd yn parhau i fod yn amcangyfrif rhesymol a phriodol at ddibenion cyfrifo costau Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2. Felly, rhagwelir y bydd y gost fesul cais o ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno yr un fath i Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2 ag yr oeddent o dan Opsiwn 1 h.y. £125 fesul ymateb.
- 1.42 Dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol cyn y pandemig yng Nghymru, amcangyfrifir bod 1,168 o ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfartaledd y byddai'n ofynnol i ddatblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r PCAC ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub arnynt o dan y gofynion a

¹⁷ Fel y diffinnir yn Erthyglau 2D, 15A i 15C, 15E a 15F o'r Gorchmyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ac Erthyglau 10, 23 a 24 o'r Gorchmyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

gynigir gan Opsiwn 2 (581 o geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a thri chais ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol bob blwyddyn).

- 1.43 Mae nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr bob blwyddyn (heb gynnwys datblygiadau mwynau) wedi cael ei dynnu o Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Gwnaed hyn am fod y disgrifiad o ddatblygiadau yn y Gorchymyn diwygio y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghori arnynt ar y ddau gam ymgynghori yn gyson â'r rhai sy'n cyfateb i ddatblygiad mawr fel y diffinnir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (heblaw am ddatblygiadau mwynau sydd wedi cael eu tynnu o'r cyfanswm terfynol).
- 1.44 Mae'r disgrifiad o ddatblygiadau sy'n sbarduno'r gofynion i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn cwmpasu unrhyw ddatblygiadau sy'n darparu 10 neu ragor o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu ragor o ystafelloedd. Nid yw'r math hwn o ddatblygiad yn cyd-fynd â'r diffiniad o 'datblygiad mawr' ac felly ni fyddai'n sbarduno'r angen i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Felly, nid oes angen iddynt gael eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio.
- 1.45 Fodd bynnag, byddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygiadau o'r fath ar y cam ar ôl cyflwyno. Nid yw cronfeydd data Llywodraeth Cymru nac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn categoreiddio data ceisiadau yn unol â'r categori o 10 neu ragor o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu ragor o ystafelloedd. Felly, nid yw data ar ymgynghoriadau ar ôl cyflwyno ar gyfer y mathau penodol hyn o ddatblygiadau wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau. Ar sail ein hamcangyfrif gorau, rhagwelir mai ychydig iawn o ymgynghoriadau ychwanegol a gaiff eu cynnal yn sgil ceisiadau ar gyfer y mathau penodol hyn o ddatblygiadau ac mae'n debygol y caiff y mwyafrif ohonynt eu cwmpasu gan sbardunau eraill sy'n gyffredin i ddatblygiadau mawr h.y. darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor, neu ddatblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.
- 1.46 Bydd yn ofynnol hefyd i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb os bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach â nhw ar unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn eu cylch yn wreiddiol. Nid yw'r mathau hyn o gydsyniad wedi cael eu cynnwys yn y cyfanswm gan na fyddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â nhw yn gostau newydd o gymharu â'r system bresennol a geir yn Opsiwn 1, h.y. bydd y system bresennol, lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymgynghori yn ôl eu disgrisiwn, yn parhau o dan Opsiwn 2. Nid oes unrhyw ddata ar gyfran y ceisiadau hyn y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r ffigur fod yn fach gan mai tua 120 o ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn eu darparu ar gyfartaledd bob blwyddyn ar hyn o bryd o dan Opsiwn 1 (gweler Tabl 1).

- 1.47 Ar sail y dull gweithredu uchod, amcangyfrifir y bydd darparu'r ymatebion gofynnol ledled Cymru yn costio tua £146,000 y flwyddyn rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub i gyd. Ceir dadansoddiad o'r gost fesul Awdurdod Tân ac Achub yn Nhabl 3 isod (ar sail cyfran ranbarthol y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a gyflwynwyd dros y tair blynedd diwethaf¹⁸).
- 1.48 O dan Opsiwn 2, ceir gofyniad statudol i Awdurdodau Tân ac Achub gyflwyno adroddiadau monitro perfformiad i Lywodraeth Cymru. Tybir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn cofnodi eu perfformiad wrth ymateb i ymgynghoriadau ar hyn o bryd, er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwneud hyn drwy'r System Wybodaeth am Reoli'r Risg o Ddân mewn Cymunedau (CFRMIS). Felly, ni ragwelir cost untro i sefydlu system gofnodi. Os nad oes gan Awdurdod Tân ac Achub system ar waith yn barod i gofnodi ymatebion, yna gallai ddefnyddio system mor anffurfiol â thaenlen i lunio adroddiadau ar ei berfformiad am gost fach.
- 1.49 Amcangyfrifir bod angen un diwrnod o amser staff gradd Rheolwr Gwylfa B (£250) fesul Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn i lunio adroddiad monitro perfformiad blynyddol. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir gan ymgynghoreion statudol presennol o fewn Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiadau monitro perfformiad blynyddol mewn perthynas â'u hymatebion i ymgynghoriadau cynllunio. Tybir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn monitro eu perfformiad eu hunain yn barod, felly amcangyfrifir y bydd gwaith monitro o dan Opsiwn 2 yn costio tua £750 y flwyddyn i Awdurdodau Tân ac Achub (£250 fesul Awdurdod Tân ac Achub) yn seiliedig ar y gost o lunio adroddiadau blynyddol.
- 1.50 Amcangyfrifir y bydd darparu ymatebion ymgynghori a monitro perfformiad yn costio tua £146,750 i Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn. Mae hyn yn gynydd o tua £132,000 mewn costau rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub i gyd o gymharu ag Opsiwn 1.

Awdurdod Tân ac Achub	Cyfran y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a ddaeth i law dros y cyfnod asesu	Cost flynyddol amcangyfrifedig o dan Opsiwn 2
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ¹⁹	24%	£35,000
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a	35%	£51,500

¹⁸ Tynnwyd y data o Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru o Awdurdodau Cynllunio Lleol.

¹⁹ Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint ac Eryri.

Gorllewin Cymru ²⁰		
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ²¹	41%	£60,000

Tabl 3 – Dadansoddiad rhanbarthol o gyfanswm y costau i Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2.

- 1.51 Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn pennu eu cyllidebau eu hunain drwy hawlio cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol sydd yn eu hardal ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros y broses hon. Yn unol â hyn, caiff y cynnydd mewn costau ei dalu o gyllidebau pob Awdurdod Tân ac Achub, fel sy'n digwydd eisoes gydag ymgynghoriad statudol presennol i'r broses gynllunio. Amcangyfrifir y caiff costau eu hadennill drwy arbedion effeithlonrwydd ac arbedion a wneir yn sgil gwelliannau i ddiogelwch tân mewn datblygiadau ac arbedion effeithlonrwydd a wneir wrth ymateb i faterion diogelwch tân, na ellir eu mesur.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.52 O dan Opsiwn 2, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn eu helpu i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ôl eu disgrisiwn ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â cheisiadau cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn eu cylch yn wreiddiol, megis ceisiadau i gymeradwyo diwygiadau ansylweddol, materion a gadwyd yn ôl neu gyflawni amodau cynllunio.
- 1.53 Ystyrir y bydd y gost o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub fesul cais yr un peth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol â'r gost o dan Opsiwn 1 (£35 fesul cais) gan nad oes tasgau na gwariant ychwanegol yn ofynnol fesul cais am ymgynghoriad o dan Opsiwn 2 nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Opsiwn 1.
- 1.54 Caiff data mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer datblygiadau mawr eu defnyddio hefyd i lunio amcangyfrif o nifer yr ymgynghoriadau a gynhelir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol bob blwyddyn, gan fod y disgrifiad o ddatblygiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch yn gyson â'r rhai sy'n cyfateb i 'ddatblygiad mawr', fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (heb gynnwys datblygiadau mwynau). Mae hyn yn golygu,

²⁰ Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog (75% o'r ardal).

²¹ Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Bannau Brycheiniog (25% o'r ardal).

dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol cyn y pandemig²², y cafodd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru 581²³ o geisiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer datblygiadau mawr, a fyddai'n bodloni'r meini prawf arfaethedig ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2. Byddai hyn, felly, yn sbarduno'r angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal 581 o ymgynghoriadau'r flwyddyn ag Awdurdodau Tân ac Achub.

- 1.55 Yn unol â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ar gyfer costau Awdurdodau Tân ac Achub, nid yw datblygiadau sy'n darparu 10 neu ragor o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu ragor o ystafelloedd wedi cael eu hystyried am y rhesymau a nodir ym mharagraff 6.44.
- 1.56 O dan Opsiwn 2, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd benderfynu defnyddio eu disgrisiwn i ymgynghori ymhellach ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl, newidiadau ansylweddol i gymeradwyaethau caniatâd cynllunio a cheisiadau am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol o dan unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd yn ddarostyngedig iddynt. Nid yw'r mathau hyn o gydsyniad wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm costau Awdurdodau Cynllunio Lleol o dan Opsiwn 2 gan na fyddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â nhw yn gostau newydd o gymharu â'r system bresennol a geir yn Opsiwn 1. Nid oes unrhyw ddata ar faint o'r mathau hyn o geisiadau y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r ffigur fod yn fach gan mai tua 120 o ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn eu darparu ar gyfartaledd bob blwyddyn o dan Opsiwn 1.
- 1.57 Yn seiliedig ar 581 o ymgynghoriadau'r flwyddyn ar gyfartaledd rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i Awdurdodau Cynllunio Lleol o dan Opsiwn 2 fydd tua £20,300 h.y. £810 fesul Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae hyn yn gynnydd o tua £16,300 mewn costau rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyd o gymharu ag Opsiwn 1 h.y. cost ychwanegol o tua £650 i bob Awdurdod.
- 1.58 Dywedodd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad na fyddai'r cynnig yn cael fawr ddim effaith berthnasol ar eu hadnoddau.
- 1.59 Mae ffioedd cynllunio a bennir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Yr egwyddor sylfaenol yw mai diben unrhyw ffioedd am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sector cyhoeddus yw adennill y costau llawn sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hynny. Felly, mae ffioedd cynllunio wedi'u targedu a'u dylunio i adennill y gost lawn sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth rheoli datblygu. Yn unol â'r egwyddorion hyn, nod cynnydd diweddar o 20%²⁴ mewn ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig yw galluogi Awdurdodau

²² 2017/2018 i 2019/2020.

²³ Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru o Awdurdodau Cynllunio Lleol

²⁴ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020 a ddaeth i rym ar 24 Awst 2020.

Cynllunio Lleol i nesáu at adennill costau llawn ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud mwy o waith i sicrhau y gall Awdurdodau Cynllunio Lleol adennill costau llawn wrth ddarparu'r gwasanaeth rheoli datblygu. Felly, rhagwelir y caiff costau Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn perthynas ag ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub eu gwrthbwysu gan ffioedd cynllunio.

Llywodraeth Cymru

Penderfynu ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

- 1.60 O dan Opsiwn 2, bydd yn ofynnol i'r PCAC ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn eu helpu i benderfynu ar geisiadau ar gyfer mathau penodol o Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- 1.61 Ystyrir y bydd y gost o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub fesul cais yr un peth i'r PCAC â'r gost o dan Opsiwn 1 (£60.00 fesul cais) gan nad oes tasgau na gwariant ychwanegol yn ofynnol fesul cais am ymgynghoriad o dan Opsiwn 2 nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Opsiwn 1.
- 1.62 O'r 16 o geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a gyflwynwyd ers 2016, byddai angen i'r PCAC gynnal ymgynghoriad gorfodol ag Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch 13 ohonynt o dan y meini prawf a gynigir o dan Opsiwn 2. Felly, byddem yn disgwyl tri chais y flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y byddai angen ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch o dan Opsiwn 2, a fyddai'n costio tua £180 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru.

Llunio canllawiau

- 1.63 Byddai Opsiwn 2 yn arwain at gost untro i Lywodraeth Cymru am ddarparu canllawiau pwrpasol ar y gofynion newydd a hysbysu Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Yn seiliedig ar gyflog dyddiol gros cyfartalog swyddog ar radd Swyddog Gweithredol Uwch (£49,893²⁵) ac amcangyfrif o'r amser a gymerir i ddrafftio'r canllawiau a hysbysu Awdurdodau Cynllunio Lleol/Awdurdodau Tân ac Achub (tair awr), amcangyfrifir y bydd cost untro newydd o oddeutu £100 i Lywodraeth Cymru.

Y Diwydiant Datblygu

- 1.64 Mae'r gofyniad presennol i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn gymwys i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, fel y'u diffinnir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) a'r Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru). O dan Opsiwn 2, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio ag Awdurdodau Tân

²⁵ Costau Cyflog Cyfartalog Llywodraeth Cymru 2020-21.

ac Achub ar gynigion datblygu sy'n cyfateb i ddatblygiadau mawr neu Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad o ddatblygiad a nodir yn y Gorchymyn diwygio.

- 1.65 O dan Opsiwn 1, ar y cam cyn ymgeisio, gall datblygwyr ddefnyddio eu disgresiwn i benderfynu a fyddant yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ai peidio a sut i gynnwys eu hymateb fel rhan o gais. O dan Opsiwn 2, caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu rhagnodi fel ymgynghoreion statudol sy'n golygu y bydd yn rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â nhw ar y cam cyn ymgeisio yn achos ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr ac y bydd yn rhaid cynnwys copiâu o'r ymateb yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, gydag esboniad o'r ystyriaeth a roddwyd i bob ymateb²⁶. Bydd y gost o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub fesul cais yr un peth i ddatblygwyr â'r gost o dan Opsiwn 1 gan na thybir bod tasgau a gwariant ychwanegol yn ofynnol fesul cais am ymgynghoriad o dan Opsiwn 2 nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghoreion o dan Opsiwn 1. Felly, amcangyfrifir y bydd ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam hwn yn y broses yn costio £58 fesul cais i ddatblygwyr.
- 1.66 Er mwyn cyfrifo cost amcangyfrifedig ar gyfer y diwydiant datblygu yn ei gyfanrwydd, defnyddiwyd data ar geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr (gweler paragraff 6.42). Gwnaed hyn am mai dim ond ar gyfer datblygiadau mawr y mae angen cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio. Nid yw'r data'n cynnwys datblygiadau mwynau, gan nad yw'r math hwn o ddatblygiad yn cyd-fynd â'r disgrifiad o ddatblygiad sy'n galw am ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub. Yn seiliedig ar nifer cyfartalog y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a ddaeth i law dros y tair blynedd diwethaf²⁷ a fyddai'n bodloni'r meini prawf arfaethedig ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub o dan Opsiwn 2, amcangyfrifir mai tua £34,000 fyddai cyfanswm y gost i'r diwydiant. Disgwylir y bydd hyn yn golygu cynnydd o oddeutu £33,000 mewn costau.
- 1.67 Rhagwelir y bydd y cynnydd yng nghostau ymgynghori datblygwyr ond yn cynrychioli cyfran fach iawn o'r costau datblygu cyffredinol, yn enwedig yn achos datblygiadau mawr, ac y dylent gael eu gwrthbwyso gan arbedion effeithlonrwydd posibl yn nhermau llai o wariant gan ddatblygwyr ar adnoddau ar y cam ar ôl cyflwyno a llai o debygolrwydd o oedi yn ystod y cam penderfynu.

²⁶ Erthygl 2F(2)(f) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

²⁷ 2017/2018 i 2019/2020.

Tabl cryno – Costau Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 fesul rhanddeiliad fesul blwyddyn

Rhanddeiliad	Cost Opsiwn 1 fesul blwyddyn	Cost Opsiwn 2 fesul blwyddyn	Cynnydd mewn costau fesul blwyddyn
Awdurdodau Tân ac Achub ²⁸	£15,000	£146,750	+ £132,000
Awdurdodau Cynllunio Lleol ²⁹	£4,000	£20,300	+ £16,000
Llywodraeth Cymru ³⁰	£0-180	£280	+£0-280
Y Diwydiant Datblygu ³¹	£700	£34,000	+£33,000

Tabl 4 – Crynodeb o gostau bras

Buddiannau

Awdurdodau Tân ac Achub

- 1.68 Roedd Awdurdodau Tân ac Achub wedi'u cynrychioli yn y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau a argymhellodd y dylid gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol yn y broses ddatblygu. Ymatebodd y tri Awdurdod i'r ymgynghoriad ac, ar y cyfan, roeddent yn cefnogi'r cynnig i'w gwneud yn ymgynghoreion statudol.
- 1.69 Mae Opsiwn 2 yn darparu proses fwy ffurfiol sy'n sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i Awdurdodau Tân ac Achub ymgysylltu ar gam cynnar yn y broses cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n peri'r risgiau a'r pryderon mwyaf o ran diogelwch tân. Bydd yn sicrhau na chaiff cyfleoedd i Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau ar ddatblygiadau o'r fath eu colli, rhywbeth a all ddigwydd yn haws o dan y dull gweithredu presennol lle maent yn dibynnu ar eu hasesiad eu hunain o ddatblygiadau neu ddisgresiwn cyrff penderfynu a datblygwyr.
- 1.70 Mae'r opsiwn hwn yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ystyried a chymryd camau rhagweithiol i lywio cynigion ar gam cynnar er mwyn sicrhau eu bod yn briodol o safbwynt materion diogelwch tân sy'n ymwneud â mynediad i gyfarpar diffodd tân a chyflenwadau dŵr at ddibenion diffodd tân o gymharu â'r risg o dân a gyflwynir gan y datblygiad newydd. Bydd hyn yn gwella diogelwch tân mewn datblygiadau newydd, gan leihau risgiau gweithredol a'r adnoddau sydd

²⁸ Gweler paragraff 6.10 am gostau Opsiwn 1 a pharagraff 6.50 am gostau Opsiwn 2.

²⁹ Gweler paragraff 6.13 am gostau Opsiwn 1 a pharagraff 6.59 am gostau Opsiwn 2.

³⁰ Gweler paragraff 6.16 am gostau Opsiwn 1 a pharagraff 6.62/6.63 am gostau Opsiwn 2.

³¹ Gweler paragraff 6.20 am gostau Opsiwn 1 a pharagraff 6.65 am gostau Opsiwn 2.

eu hangen ar Awdurdodau Tân ac Achub wrth ymateb i unrhyw danau yn y dyfodol.

- 1.71 Bydd hefyd yn ffordd bwysig o feithrin gwell dealltwriaeth o ddatblygiadau yn eu hardaloedd gan eu helpu i sefydlu a chynnal capasiti a gallu lleol er mwyn mynd i'r afael â risgiau a phryderon o ran diogelwch tân. Bydd ymgysylltu ar y cam hwn yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ddiweddarau'r wybodaeth honno, a dechrau cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau mewn gallu gweithredol a allai fod yn angenrheidiol.
- 1.72 Gall mwy o ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio leihau rôl yr Awdurdodau hynny ar y cam penderfynu gan y byddant yn llai tebygol o gyflwyno gwrthwynebiadau, neu ofyn am ddiwygiadau neu amodau ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.73 Roedd y mwyafrif o'r 10 Awdurdod Cynllunio Lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol.
- 1.74 Mae Opsiwn 2 yn darparu proses fwy ffurfiol sy'n sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ar gam cynnar yn y broses cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n peri'r risgiau a'r pryderon mwyaf o ran diogelwch tân. Bydd yn sicrhau na chaiff cyfleoedd i Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau ar ddatblygiadau o'r fath eu colli gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, rhywbeth a all ddigwydd yn haws o dan y dull gweithredu presennol lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dibynnu ar eu hasesiad eu hunain o faterion yn ymwneud â'r risg o dân sy'n codi o gynigion datblygu. Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu defnyddio'r cyngor arbenigol dilynol gan Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod materion yn ymwneud â diogelwch tân yn cael eu hystyried yn llawn wrth iddynt benderfynu ar geisiadau.
- 1.75 Dylai ymarferion ymgynghori rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio leihau'r risg y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno gwrthwynebiadau a cheisiadau am ragor o wybodaeth, diwygiadau ac amodau ar y cam penderfynu, oherwydd gallant ddylanwadu ar ddyluniad y cynllun cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno. Mae hyn yn debygol o arwain at arbedion effeithlonrwydd i Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 1.76 Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnal ymgynghoriadau ar ôl cyflwyno ag Awdurdodau Tân ac Achub³² ar ddechrau'r broses benderfynu, gan sicrhau bod digon o amser i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb ac i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried eu hymateb fel rhan o'r broses benderfynu

³² Fel y'u diffinnir gan Erthygl 14 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

- 1.77 Rhagwelir y dylai'r cadarnhad ynghylch y ceisiadau y mae'n rhaid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch leihau'r tebygolrwydd y caiff mân geisiadau amherthnasol eu cyflwyno gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i Awdurdodau Tân ac Achub ymgynghori arnynt. Yn yr un modd, dylai cadarnhad statudol o'r mathau o geisiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau arnynt leihau'r tebygolrwydd y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno ymatebion amherthnasol ar geisiadau nad ymgynghorwyd â nhw yn eu cylch. Fodd bynnag, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio eu disgresiwn o hyd ac ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r disgrifiad penodedig o ddatblygiad.

Llywodraeth Cymru

- 1.78 Mae ymarferion ymgynghori cyn ymgeisio rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub yn galluogi'r Awdurdodau i ymgysylltu â chynlluniau cyn y caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r cyfraniad cynnar hwn, ynghyd ag ymarferion ymgynghori rhwng yr PCAC ac Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam penderfynu, yn lleihau'r risg y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno gwrthwynebiadau a cheisiadau am ragor o wybodaeth, diwygiadau ac amodau ar y cam penderfynu. Dylai'r holl ffactorau hyn arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio.
- 1.79 Mae Opsiwn 2 yn darparu proses fwy ffurfiol sy'n sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i'r PCAC ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ar gam cynnar yn y broses cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n peri'r risgiau a'r pryderon mwyaf o ran diogelwch tân. Bydd yn sicrhau na chaiff cyfleoedd i Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau ar ddatblygiadau o'r fath eu colli gan yr Arolygiaeth Gynllunio, rhywbeth a all ddigwydd yn haws o dan y dull gweithredu presennol lle mae'r Arolygiaeth yn dibynnu ar ei hasesiad ei hun o faterion yn ymwneud â'r risg o dân sy'n codi o gynigion datblygu wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ai peidio. Bydd yr PCAC yn gallu defnyddio'r cyngor arbenigol dilynol gan Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod materion yn ymwneud â diogelwch tân yn cael eu hystyried yn llawn wrth iddi benderfynu ar geisiadau.
- 1.80 Dylai ymarferion ymgynghori rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio leihau'r risg y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno gwrthwynebiadau a cheisiadau am ragor o wybodaeth, diwygiadau ac amodau ar y cam penderfynu. Y rheswm am hyn yw y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cael eu hysbysu am y datblygiad arfaethedig a bydd ganddynt ddealltwriaeth well o'i effaith a thrwy hynny gallant ddylanwadu ar y cynllun ar gam cynnar. Dylai hyn i gyd arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio.
- 1.81 Bydd yr PCAC yn cynnal ymgynghoriadau ar ôl cyflwyno ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddechrau'r broses benderfynu, gan sicrhau bod digon o amser i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb ac i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried eu ymateb fel rhan o'r broses benderfynu

- 1.82 Dylai cadarnhad statudol o'r mathau o geisiadau y dylai Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau arnynt leihau'r tebygolrwydd y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflwyno ymatebion amherthnasol ar geisiadau nad ymgynghorwyd â nhw yn eu cylch.
- 1.83 Bydd yr adroddiadau monitro perfformiad a gyflwynir gan Awdurdodau Tân ac Achub yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro effeithiolrwydd yr Awdurdodau hynny'n rheolaidd a defnyddio'r data meintiol i drafod unrhyw bryderon am y broses gynllunio â'r rhanddeiliaid perthnasol.

Y Diwydiant Datblygu

- 1.84 O dan Opsiwn 2, byddai datblygwyr yn cael fframwaith clir sy'n dangos pryd y dylent ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio. Yn sgil hyn, byddai angen llai o adnoddau arnynt i asesu pa brosiectau y dylent ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch yn eu barn nhw.
- 1.85 Dylai ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio helpu i sicrhau bod safbwyntiau'r Awdurdodau hynny'n cael eu hystyried o'r dechrau, gan gynyddu'r tebygolrwydd bod materion yn ymwneud â diogelwch tân yn cael eu trin cyn i gynlluniau gael eu cyflwyno. Bydd llai o risg hefyd o wrthwynebiadau, diwygiadau neu amodau dilynol sydd, yn ei dro, yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff ceisiadau eu gwrthod, eu hoedi neu eu hailddylunio yn ystod y broses benderfynu.
- 1.86 Mae datblygwyr sy'n cael ymatebion ymgynghori gan Awdurdodau Tân ac Achub ar y camau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno yn fwy tebygol o ystyried materion technegol arwyddocaol yn eu ceisiadau cynllunio. Dylai ymarferion ymgysylltu o'r fath ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam dylunio helpu i wella diogelwch gweithredol a defnyddioldeb datblygiadau ar ôl iddynt gael cydsyniad, gan leihau'r risg y bydd angen i ddatblygwyr wario arian ar adnoddau ac y bydd niwed i'w henw da yn sgil problemau tân.
- 1.87 Gall gwaith ymgysylltu rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub hefyd olygu y caiff cynlluniau anhyfyw eu nodi a'u diystyru ar gam cynnar gan arbed y costau diangen o geisio caniatâd cynllunio.

Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir

- 1.88 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.
- 1.89 Bydd ffurfioli'r broses ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn arwain at fwy o effeithlonrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub, datblygwyr a chyrrff penderfynu. Bydd mwy o gyfraniad gan Awdurdodau Tân ac Achub yn y broses gynllunio yn sicrhau bod datblygwyr a chyrrff penderfynu yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion diogelwch tân posibl wrth

ddylunio cynigion datblygu a phenderfynu arnynt drwy ddefnyddio arweiniad arbenigol yr Awdurdodau Tân ac Achub i ystyried sut y gellir osgoi, lliniaru a rheoli peryglon tân mewn datblygiadau perthnasol. Bydd hyn yn arwain at ddyluniadau gwell, penderfyniadau mwy effeithlon a datblygiadau mwy diogel. At hynny, bydd gan Awdurdodau Tân ac Achub fwy o wybodaeth am ddatblygiadau yn eu hardaloedd a gallant gynllunio eu hadnoddau yn unol â hynny.

- 1.90 Bydd Opsiwn 2 yn cyfrannu at newidiadau ehangach i ddiogelwch adeiladau sy'n anelu at leihau'r risg o danau mawr ac, o ganlyniad, y risg o farwolaethau ac anafiadau, costau, tarfu a cholli eiddo.
- 1.91 Cydnabyddir bod Opsiwn 2 yn creu rhai costau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub, datblygwyr a chyrrff penderfynu. Fodd bynnag, ystyrir y caiff y costau hyn eu cydbwysu'n gyffredinol gan yr arbedion a ddaw yn sgil mwy o effeithlonrwydd yn y broses benderfynu a gwell diogelwch tân hirdymor.
- 1.92 Mae Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei gwblhau ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig ac mae ar gael yma <https://llyw.cymru/gorchymyn-gweithdrefn-ddatblygu-ymgyngoreion-cymru-diwygiadau-amrywiol-2021-asesiad-effaith>.

2. Ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' pan fo'r datblygiad a gynigir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd

Yr opsiynau

2.1 Ystyriwyd dau opsiwn:

- **Opsiwn 1** – Gwneud dim. Byddai hyn yn golygu parhau â'r trefniadau presennol, fel a ganlyn:
 - Mae'r Map Cyngor Datblygu yn pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio;
 - Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli ym mharthau perygl llifogydd y Map Cyngor Datblygu fel y'u diffinnir yn *Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012* ac *Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016*.
- **Opsiwn 2** – Cyflwyno map llifogydd newydd at ddibenion cynllunio (sef y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio) i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu presennol. O ganlyniad, cyflwyno Gorchymyn diwygio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli yn y parthau perygl llifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Byddai cyfeiriadau at fathau o

ddatblygiadau (e.e. “datblygiad dan fygythiad mawr”) yn cael eu tynnu o'r ddeddfwriaeth er mwyn cadarnhau gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n adlewyrchu arferion presennol. Mae'n arferol bellach i Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion datblygu sydd y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth bresennol os cynigir lleoli datblygiad mewn ardal lle ceir perygl llifogydd.

Cyfiawnhad dros ddau opsiwn

- 2.2 Ni chynigir trydydd opsiwn gan nad ystyrir bod ffordd resymol arall o gyflawni bwriad y polisi o sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar ddatblygiadau lle mae'r perygl o lifogydd yn debygol o fod yn ystyriaeth gynllunio sylweddol.

Costau a Buddiannau

Opsiwn 1 – Gwneud dim (h.y. parhau â'r trefniadau presennol lle mae'r Map Cyngor Datblygu yn pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio ac ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli ym mharthau perygl llifogydd y Map Cyngor Datblygu fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth bresennol).

Disgrifiad

- 2.3 Byddai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau mewn grym er mwyn pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer diffinio ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (a gaiff ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel 'Corff adnoddau naturiol Cymru') ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd o dan yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn golygu y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar unrhyw gynigion o'r fath, gan gynnwys 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol', sy'n perthyn i Barth Llifogydd C2 y Map Cyngor Datblygu, neu geisiadau y gellir eu categoreiddio yn 'ddatblygiadau gwasanaethau brys' neu 'ddatblygiadau dan fygythiad mawr' sy'n perthyn i Barth Llifogydd C1 y Map Cyngor Datblygu. Byddai'n parhau i roi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud sylwadau ar y cynigion hynny lle caiff yr angen i ystyried perygl llifogydd ei sbarduno gan ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu presennol.

Costau

- 2.4 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac fel y cyfryw, nid oes costau na buddiannau ychwanegol i'r opsiwn hwn. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa bresennol.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- 2.5 Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud sylwadau ar gynigion mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir gan y Map Cyngor Datblygu. Caiff y ddyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb i ymgynghoriadau ar gynigion i'w lleoli yn yr ardaloedd hynny lle ceir perygl llifogydd a ddangosir yn y Map Cyngor Datblygu, ei nodi o dan y Gorchmynion Rheoli Datblygu a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol presennol.

Blwyddyn	Nifer yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio lle rhoddwyd ymateb o sylwedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'u lleolir ym Mharthau Risg Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
2020/2021	1,966
2019/2020	1,865
2018/2019	2,184
	<i>(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt yn dod o fewn y mathau o ddatblygiadau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy gyda CNC, ond sy'n adlewyrchu'r arfer cyfredol - gweler Tabl 10)</i>

Tabl 5: Nifer yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio lle rhoddwyd ymateb o sylwedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'u lleoli ym Mharthau Risg Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

- 2.6 Mae data gan Cyfoeth Naturiol Cymru³³ yn dangos nifer yr ymgynghoriadau lle rhoddwyd ymateb o sylwedd ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hynny lle ceir perygl llifogydd a ddangosir yn y Map Cyngor Datblygu (gweler Tabl 5 uchod). Ar gyfartaledd dros y cyfnod rhwng 2018/2019 a 2020/2021, rhoddwyd 2005³⁴ o ymatebion o sylwedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ymgynghoriadau cynllunio ar gynigion yn y Parthau Risg Llifogydd. Nid ystyrir bod angen dangos costau manwl yr opsiwn hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru gan na fyddai unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb i ymgynghoriadau cynllunio ar gynigion datblygu a leolir

³³ Rhoddwyd y data ar ymatebion o sylwedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio i Lywodraeth Cymru ar 12 Hydref 2021

³⁴ Cyfanswm y data ar gyfer 2018/19 i 2020/21 wedi ei rhannu â 3

mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd o dan y naill opsiwn na'r llall (gweler hefyd y costau i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Opsiwn 2 isod).

Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.7 Byddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol presennol lle caiff ymgynghoriadau eu sbarduno gan Barthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
- 2.8 Amcangyfrifir bod ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn costio tua £35.00 fesul cais i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd hi'n cymryd 30 munud ar gyfartaledd i swyddog gweinyddol (cyflog gros blynyddol o £25,451³⁵) hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru, a 60 munud i uwch swyddog cynllunio (cyflog gros blynyddol o £41,518³⁶) gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried ei ymateb wrth ddod i benderfyniad. Deellir o ohebiaeth ag Awdurdodau Cynllunio Lleol mai yn electronig y caiff ymgynghoriadau ag ymgynghoreion statudol neu gyrff cyhoeddus eraill eu cynnal yn bennaf er mwyn bod mor effeithlon â phosibl; felly, nid oes unrhyw gostau postio/argraffu wedi cael eu cynnwys.

Blwyddyn	Nifer yr ymatebion o sylwedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gynigion a leolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.	Costau blynyddol amcangyfrifedig i Awdurdodau Cynllunio Lleol
2020/2021	1,862 <i>(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt yn dod o fewn y mathau o ddatblygiadau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy gyda CNC, ond sy'n adlewyrchu'r arfer cyfredol - gweler Tabl 10)</i>	£65,170 (£2,607 i bob ACLI)

Tabl 6: Nifer yr ymatebion o sylwedd a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol i ac amcangyfrif o'r costau blynyddol i Awdurdodau Cynllunio Lleol o ymgynghori ar gynigion a leolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

³⁵ Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Cynorthwydd Technegol/Swyddog Cymorth Cynllunio' o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

³⁶ Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Uwch Swyddog Cynllunio' o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

Noder: Mae'r data a gynhwysir yn Nhabl 5 ar nifer yr ymatebion o sylwedd y mae CNC wedi'u darparu i gyd dros y cyfnod 2018-2019 i 2020-2021 ar gyfer ceisiadau sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd DAM yn fras yn ffigur tebyg i'r 2,000 o ymatebion ar gyfer pob blwyddyn. Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y bydd nifer yr ymatebion o sylwedd a ddarperir gan CNC i ACLlau ar gyfer 2020-2021 yn debyg yn fras ar gyfer blynyddoedd blaenorol 2018-2019 a 2019-2020.

At hynny, gall ymateb o sylwedd fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddadansoddiad manwl. Felly ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn darparu ymatebion o sylwedd i ymatebydd yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd â hwy i ddechrau (ACLlau yn yr achos hwn).

- 2.9 Amcangyfrifir nifer yr achosion lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau a leolir ym mharthau perygl llifogydd y Map Cyngor Datblygu yn Nhabl 6 uchod. Ar y sail hon, o'i luosi â chyfradd fesul awr gros y staff perthnasol³⁷, amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gost flynyddol i Awdurdodau Cynllunio Lleol yw tua £65,170 (£2,607 fesul Awdurdod Cynllunio Lleol).

Llywodraeth Cymru

- 2.10 Mae PCAC yn prosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ran Gweinidogion Cymru. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r PCAC yn parhau i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac o bosib ceisiadau wedi eu galw i fewn, mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol presennol lle caiff ymgynghoriadau eu sbarduno gan Barthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
- 2.11 Amcangyfrifir bod ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn costio cyfanswm o tua £60.00 fesul cais i'r PCAC ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd yn cymryd 30 munud i swyddog gweinyddol o'r PCAC (cyflog gros blynyddol o £28,329) hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a chydweithio ag ef a 60 munud i arolygydd o'r PCAC (cyflog gros blynyddol o £80,906) ddehongli a chrynhof'r ymateb. Mae'r PCAC yn cynnal pob ymgynghoriad ag ymgynghoreion statudol neu gyrrff cyhoeddus eraill yn electronig; felly, nid oes unrhyw gostau postio/argraffu wedi cael eu cynnwys.

Blwyddyn	Nifer o ymatebion o sylwedd wedi ei rhoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i PCAC ar gynigion a'u lleolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
2020/2021	23

³⁷ Swyddog Gweinyddol Awdurdod Cynllunio Lleol:- £25,451 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £111 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £15 (cost fesul awr). Uwch Swyddog Cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol:- £41,518 costau gros / 220 = £188 / 7.24 = £26 (cost fesul awr).

	(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt yn dod o fewn y mathau o ddatblygiadau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy gyda CNC, ond sy'n adlewyrchu'r arfer cyfredol - gweler Tabl 10)
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Tabl 7: Nifer o ymatebion o sylwedd wedi ei rhoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i PCAC lle lleolir y datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

Noder: Mae'r data a gynhwysir yn Nhabl 5 ar nifer yr ymatebion sylweddol y mae CNC wedi'u darparu i gyd dros y cyfnod 2018-2019 i 2020-2021 ar gyfer ceisiadau sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu yn fras yn debyg i'r 2,000 o ymatebion ar gyfer pob un. flwyddyn. Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y bydd nifer yr ymatebion sylweddol a ddarperir gan CNC i PCAC ar gyfer 2020-2021 yn debyg yn fras ar gyfer blynyddoedd blaenorol 2018-2019 a 2019-2020.

At hynny, gall ymateb o sylwedd fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddadansoddiad manwl. Felly ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn darparu ymatebion o sylwedd i ymatebydd yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd â hwy i ddechrau (PCAC yn yr achos hwn).

- 2.12 Yn 2020/21, nifer yr ymatebion o sylwedd a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i PCAC ar gynigion ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu oedd 23; gellir ystyried bod y ffigur hwn yn adlewyrchiad o'r cyfanswm o geisiadau yr ymgynghorodd PCAC â Cyfoeth Naturiol Cymru yn flynyddol rhwng 2018-19 a 2020-21 (gweler Tabl 7 uchod). Felly byddai'n costio tua £360 y flwyddyn i'r PCAC ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, yn seiliedig ar amcangyfrifiad o 23 cais y flwyddyn ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol rhwng 2018/2019 a 2020/2021 a chyfraddau fesul awr gros y staff perthnasol³⁸. Ystyrir bod yr amcangyfrif hwn yn senario gwaethaf posibl gan fod y data'n dangos bod PCAC yn ymgynghori'n bennaf â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau DNS; Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru 20 ymateb o sylwedd i geisiadau DNS sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd DAM ar gyfer y cyfnod 2020/2021, o'i gymharu â 7 ymateb ar gyfer 2020/2019 a 6 ar gyfer 2018/2019.

³⁸ Swyddog Gweinyddol o'r Arolygiaeth Gynllunio:- £28,329 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £123 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £17 (cost fesul awr). Arolygydd o'r Arolygiaeth Gynllunio:- £80,906 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £351 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £49 (cost fesul awr).

Y Diwydiant Datblygu

- 2.13 Mae ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cam cyn ymgeisio ar gyfer cynigion datblygu mawr mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn statudol i ddatblygwyr o dan y gofynion deddfwriaethol presennol lle caiff ymgynghoriadau eu sbarduno gan Barthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
- 2.14 Nid oes cost safonol i ddatblygwyr am gynnal ymgynghoriad, gan y bydd costau ymarferion ymgysylltu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a datblygwyr yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod y cynnig a nifer y staff sy'n gweithio ar yr ymarfer. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen diwygio rhai cynigion datblygu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 2.15 Fel arfer, bydd datblygwyr yn penodi ymgynghorwyr cynllunio i gynnal unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio. Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog³⁹ ymgynghorydd cynllunio (£58 yr awr) ac amcangyfrif y bydd yn cymryd tua 60 munud fesul cais ar gyfartaledd i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru, cydweithio ag ef, ystyried ei ymateb i'r cais a'i gofnodi mewn adroddiad i ategu'r cais, amcangyfrifir bod ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion datblygu yn costio tua £58 fesul cais i'r datblygwr.

Blwyddyn	Nifer yr ymatebion o sylwedd a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygwyr ar gynigion a'u lleolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.
2020/2021	81 <i>(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt yn dod o fewn y mathau o ddatblygiadau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy gyda CNC, ond sy'n adlewyrchu'r arfer cyfredol - gweler Tabl 10)</i>

Tabl 8: Nifer yr ymatebion o sylwedd a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygwyr ar gynigion a'u lleolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

Noder: Mae'r data a gynhwysir yn Nhabl 5 ar nifer yr ymatebion sylweddol y mae CNC wedi'u darparu i gyd dros y cyfnod 2018-2019 i 2020-2021 ar gyfer ceisiadau sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu yn fras yn debyg i'r 2,000 o ymatebion ar gyfer pob un flwyddyn. Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y bydd nifer yr ymatebion sylweddol a ddarperir gan CNC i PCAC ar gyfer 2020-2021 yn debyg yn fras ar gyfer blynyddoedd blaenorol 2018-2019 a 2019-2020.

³⁹ Yn seiliedig ar fframwaith caffael gwasanaethau technegol a phroffesiynol y sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru

At hynny, gall ymateb o sylwedd fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddatansoddiad manwl. Felly ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn darparu ymatebion o sylwedd i ymatebydd yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd â hwy i ddechrau (y sector ddatblygu yn yr achos hwn).

- 2.16 Ar gyfer 2020/2021, nifer yr ymatebion o sylwedd a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygwyr ar gyfer cynigion sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu oedd 81; gellir ystyried bod y ffigur hwn yn adlewyrchu cyfanswm nifer y cynigion ceisiadau cynllunio yr ymgynghorwyd â datblygwyr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru y flwyddyn dros y cyfnod 2018-2019 i 2020-2021 (gweler Tabl 7 uchod). Byddai hyn yn arwain at gyfanswm cost i'r diwydiant datblygu o oddeutu £ 4,698 (81 wedi'i luosi â 58).

Buddiannau

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- 2.17 Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ymgynghori ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Cyngor Datblygu. O safbwynt mapio, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ddiweddarau'r Map Cyngor Datblygu bob chwe mis. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys adolygiad o ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, sy'n golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar y mathau priodol o gynigion ac yn gwneud sylwadau os gallai fod perygl llifogydd.
- 2.18 Nid ystyrir y byddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at fuddiannau nodedig i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adnoddau neu weithdrefnau. Diben y newidiadau arfaethedig yw tacluso'r mapiau a'r derminoleg bresennol er mwyn adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd, fel yr eglurir isod.
- 2.19 Ar hyn o bryd, nid yw terminoleg y Map Cyngor Datblygu nac enwau'r parthau llifogydd yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod iaith glir a chyfredol yn cael ei defnyddio i ystyried ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn y system gynllunio. Hefyd, nid yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a gyflwynir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15. Er enghraifft, mae'r TAN newydd yn diweddarau'r iaith a ddefnyddir i ddiffinio ardaloedd a gaiff eu hamddiffyn rhag perygl llifogydd drwy bennu diffiniad cliriach sy'n cyfeirio atynt, yn syml, fel 'ardaloedd amddiffynnol' Nid yw geiriad y mapiau perygl llifogydd na'r gofynion ymgynghori cysylltiedig yn adlewyrchu'r polisi newydd hwn, a gallai hyn ei gwneud hi'n anos i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio ymatebion i gynigion datblygu sy'n cyd-fynd yn glir â geiriad y mapiau a'r polisi.
- 2.20 O safbwynt y derminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, mae'n diffinio 'mathau' penodol o ddatblygiadau y dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cylch yn achos datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl

llifogydd, gan gyfeirio at 'datblygiadau dan fygythiad mawr' yn benodol. Nid yw'r safbwynt hwn yn adlewyrchu'r safbwynt polisi presennol nac arferion safonol sy'n golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hysbysu, fan lleiaf, am bob math o gynigion datblygu yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd.

- 2.21 Felly, ni fyddai Opsiwn 1 yn adlewyrchu'r newidiadau ehangach hyn i'r polisi cynllunio o safbwynt mapio perygl llifogydd a gofynion ymgynghori, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth. Yn y pen draw, drwy beidio â diweddarau terminoleg y mapiau perygl llifogydd a'r derminoleg ddeddfwriaethol, ni fyddai cyfres gynhwysfawr a thryloyw o fesurau cyfredol ar gael i bob rhanddeiliad ar sut y dylai'r perygl o lifogydd gael ei ystyried wrth benderfynu ar gynigion datblygu drwy gydol y system gynllunio.

Awdurdodau Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu

- 2.22 Byddai'n ofynnol o hyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol, PCAC a'r diwydiant datblygu ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Cyngor Datblygu.
- 2.23 Nid ystyrir y byddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at fuddiannau nodedig i Awdurdodau Cynllunio Lleol na PCAC o ran adnoddau neu weithdrefnau. Mae'r newidiadau arfaethedig i ofynion ymgynghori yn deillio o bolisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddarau ar berygl llifogydd, fel yr eglurwyd eisoes. Felly, byddai methiant i gysoni'r llwyfan mapio â'r polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd o dan yr opsiwn hwn yn creu amwysedd i randdeiliaid o ran sut y mae eu cynigion yn cyd-fynd â'r mapiau perygl llifogydd, y gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a sut y dylid eu hystyried o dan y polisi TAN 15 diweddaraf.

Opsiwn 2 – Cyflwyno diweddariadau i fapiau perygl llifogydd a gofynion ymgynghori a fyddai'n gwneud y canlynol:

- **Cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r Map Cyngor Datblygu presennol.**
- **Cyflwyno Gorchymyn diwygio i sicrhau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli yn y parthau perygl llifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.**

Disgrifiad

- 2.24 Byddai'r opsiwn hwn yn cael gwared ar y Map Cyngor Datblygu presennol a'i barthau llifogydd ac yn cyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio a pharthau llifogydd newydd a fyddai'n pennu ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Byddai'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15. Byddai'r Map Llifogydd ar gyfer

Cynllunio yn sicrhau bod arddull a chynnwys y mapiau'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd ac yn adlewyrchu diweddariadau iddo. Er enghraifft, byddai'n nodi'n glir bod ardaloedd a gaiff eu hamddiffyn rhag perygl llifogydd ar hyn o bryd yn 'Ardaloedd Amddiffynnol TAN 15', sy'n gyson â pholisi TAN 15.

- 2.25 Yn sgil diwygiadau i'r mapiau llifogydd, byddai angen Gorchymyn diwygio er mwyn diweddarau gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd.
- 2.26 Byddai'r Gorchymyn diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu. Yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, y parthau sy'n wynebu'r perygl mwyaf yw Parth 2, Parth 3 a Pharthau Amddiffynnol TAN 15, sef ardaloedd sy'n wynebu perygl ond lle ceir hefyd safon uchel o ddiogelwch rhag llifogydd.
- 2.27 Penderfynwyd na ddylai Gorchymyn diwygio nodi 'mathau' penodol o ddatblygiadau y dylid ymgynghori yn eu cylch yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf, megis 'datblygiad dan fygythiad mawr' neu 'ddatblygiad gwasanaethau brys'. Mae'n amlwg bod Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr, ar y cyfan, yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw fath o gynnig datblygu y cynigir ei leoli mewn ardal lle ceir perygl llifogydd, nid dim ond y rhai sydd wedi'u rhagnodi'n benodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Costau

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- 2.28 Nid ystyrir y byddai'r opsiwn hwn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan y byddai'r adnoddau a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu ymatebion o sylwedd i geisiadau cynllunio yn debyg i Opsiwn 1.
- 2.29 Byddai'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn sicrhau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau yn unol â'r parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd a nodir yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, sy'n adlewyrchu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd. Diben cyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r Map Cyngor Datblygu yw sicrhau bod y mapiau'n defnyddio'r derminoleg ddiweddaraf ym maes cynllunio a pherygl llifogydd yn unol â'r diweddariadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd a nodir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15. Noder: mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi datblygu'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio. Felly, mae'r costau o ddatblygu adnodd newydd i fapio perygl llifogydd at ddibenion cynllunio, i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu, wedi mynd iddynt eisoes ac yn 'gostau suddedig'.

2.30 Pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei chadw a'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ddiweddarau'r Map hwnnw'n rheolaidd, h.y. bob chwe mis, i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd⁴⁰. O dan y naill lwybr mapio neu'r llall, byddai'r parthau sy'n dangos y lefelau uchaf o berygl llifogydd at ddibenion cynllunio yn debyg dros y tymor hwy; felly, ni ddylai nifer y ceisiadau y mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu ymatebion o sylwedd iddynt bob blwyddyn newid rhwng Opsiynau 1 a 2.

Parthau Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol, sy'n sbarduno gofynion datblygu i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.	Tir (arwynebedd) km ²	Parthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Arfaethedig.	Tir (arwynebedd) km ²
C1 (yn cynnwys amddiffynfeydd presennol)	234	Parthau Amddiffynnol	264
C2	1814	Parth 2	164
		Parth 3	1921
Cyfanswm arwynebedd tir ar gyfer y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd gan ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu presennol.	2048	Cyfanswm arwynebedd tir ar gyfer y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd gan ddefnyddio'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.	2349

Tabl 9: Gwahaniaethau mewn arwynebedd tir rhwng y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu presennol a'r parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.

2.31 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu data sy'n dangos yr effaith ofodol a gaiff cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar yr adeg hon⁴¹. Mae'r data yn tynnu sylw at y gwahaniaethau mewn arwynebedd tir rhwng y parthau lle ceir y

⁴⁰ Dylid nodi nad yw'r Map Cyngor Datblygu presennol yn ystyried newid hinsawdd wrth gynllunio ar gyfer ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ond byddai'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn ystyried newid hinsawdd wrth ddiffinio ardaloedd lle ceir perygl llifogydd. Fodd bynnag, pe bai'r Map Cyngor Datblygu yn cael ei ddiweddarau yn y dyfodol, ystyrir y byddai'n cynnwys y data hyn, am fod y pwnc yn eithriadol bwysig yng nghyd-destun llifogydd ac am fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y gallu bellach i'w gynnwys yn y mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Felly, nid ystyrir bod y newid hwn i gynnwys newid hinsawdd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn wahanol i'r sefyllfa pe bai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn cael ei ddiweddarau at ddibenion cynllunio yn y dyfodol.

⁴¹ Rhoddwyd y data hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Lywodaeth Cymru ar 16 Awst 2021

peryl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu, lle mae'n ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau ar hyn o bryd, a Pharthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (gweler Tabl 9 uchod). Mae'n dangos pe bai Parthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn disodli Parthau Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, y byddai'n arwain at gynnydd o 15%⁴² mewn arwynebedd tir yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Cynnydd bach yw hwn yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, a allai arwain at nifer bach o gynigion newydd y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu ymateb o sylwedd iddynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ar y cam hwn y bydd y cyngor polisi ar gyfer yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf yn fwy cyfyngol nag o'r blaen, a rhagwelir y bydd hyn yn arwain at leihad yn nifer y cynlluniau a gaiff eu cynnig gan ddatblygwyr. Ffactor arall yw y byddai'r trefniadau i ddiweddarau Parthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael eu rhoi ar waith hefyd pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddewis, gan y byddai'r Map Cyngor Datblygu a'i ardaloedd perygl llifogydd yn cael eu diweddarau bob chwe mis.

Blwyddyn	2020/2021	2019/2020	2018/2019
Nifer yr ymatebion o sylwedd a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r holl ymgynghoriadau ar gyfer datblygiadau yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu, lle nad yw'n ofynnol ymgynghori ar y math hwnnw o ddatblygiad o dan y gofynion deddfwriaethol presennol.	338	355	366

Tabl 10: Data sy'n dangos yr ymatebion o sylwedd ar geisiadau cynllunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu, lle nad yw'n ofynnol ymgynghori ar y math hwnnw o ddatblygiad⁴³ o dan y gofynion deddfwriaethol presennol.

- 2.32 Nid ystyrir bod dileu unrhyw gyfeiriadau at 'fathau' o ddatblygiadau o dan yr opsiwn hwn er mwyn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hysbysu am bob math o ddatblygiad yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn creu costau ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan mai dyma'r arfer ar hyn

⁴² (Ardaloedd Perygl Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Arfaethedig (2349) llai Ardaloedd Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol (2048)) / Ardaloedd Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol (2048) * 100.

⁴³ Mae'r math hwn o ddatblygiad yn dangos ymatebion o sylwedd a roddwyd ar ymgynghoriadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad presennol o ddatblygiad 'gwasanaethau brys' a datblygiad 'dan fygythiad mawr' ar gyfer Parth C1 y Map Cyngor Datblygu.

o bryd (gweler Tabl 10 uchod). Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r data yn dangos bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu tua 353 ymateb o sylwedd bob blwyddyn nad oes yn rhaid ymgynghori arnynt o dan y gofynion deddfwriaethol presennol.

Awdurdodau Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu

- 2.33 Nid ystyrir y byddai unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i randdeiliaid sy'n gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am ymatebion ymgynghori o dan yr opsiwn hwn. Byddai'r adnoddau sydd eu hangen i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn debyg, o ystyried y mathau o gynigion cynllunio y byddai'n rhaid ymgynghori arnynt gan ddefnyddio'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio a'i barthau llifogydd o gymharu ag Opsiwn 1. Y rheswm am hyn yw, o dan y ddwy senario, y byddai'r ddau fap llifogydd yn cael eu diweddarau bob chwe mis i sicrhau eu bod yn darparu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd. Byddai hyn yn golygu nad yr opsiynau sydd ar gael yn yr asesiad hwn fyddai achos uniongyrchol y diffiniad o'r ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd sy'n sbarduno gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 2.34 Byddai'r newidiadau deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar bob math o ddatblygiad a gynigir yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, yn hytrach na nodi 'mathau' o ddatblygiadau fel sy'n digwydd o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd.

Buddiannau

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- 2.35 Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Byddai'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn darparu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd at ddibenion cynllunio, ond ystyrir y byddai'r un peth yn wir hefyd pe bai'r Map Cyngor Datblygu yn cael ei gadw (Opsiwn 1) a'i ddiweddarau'n rheolaidd.
- 2.36 Serch hynny, byddai'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod mapiau perygl llifogydd a gofynion ymgynghori yn nodi'n glir bod yn rhaid i ymgeiswyr a llunwyr penderfyniadau hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am bob cynnig datblygu yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Dyma'r arfer safonol ar hyn o bryd ond o dan yr opsiwn hwn, caiff ei gynnwys mewn deddfwriaeth (drwy ddileu 'mathau' o ddatblygiadau o'r ddeddfwriaeth bresennol).
- 2.37 Byddai'r newidiadau hefyd yn sicrhau bod y mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig sy'n nodi gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 15. Yn y pen

draw, ni fyddai amwysedd rhwng polisi, deddfwriaeth a mapiau llifogydd, felly byddai'n rhoi sicrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru yr ymgynghorir ag ef yn briodol ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a gall lunio ymatebion sy'n cyd-fynd yn llawn â'r polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd.

Awdurdodau Cynllunio Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu

- 2.38 Ystyrir na fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at unrhyw fuddiannau nodedig i Awdurdodau Cynllunio Lleol, PCAC neu'r diwydiant datblygu dros y tymor hwy. Byddai pob rhanddeiliad yn parhau i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion cynllunio yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, p'un a ydynt wedi'u hamlinellu yn y Map Cyngor Datblygu presennol neu'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.
- 2.39 Serch hynny, mae buddiannau i'r opsiwn hwn yn nhermau cysoni'r mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio a gofynion ymgynghori â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15. Dylai'r cynigion hyn arwain at set gynhwysfawr o fapiau perygl llifogydd, gofynion deddfwriaethol a gofynion polisi cynllunio cenedlaethol gan sicrhau bod gan bob rhanddeiliad ddealltwriaeth gliriach o'r modd y dylid ystyried y perygl o lifogydd wrth benderfynu ar gynigion datblygu drwy'r system cynllunio.

Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir

- 2.40 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.
- 2.41 Ystyrir nad yw'r naill opsiwn na'r llall yn creu costau sylweddol nac yn arwain at fuddiannau ariannol sylweddol i'r rhanddeiliaid i gyd. O dan Opsiwn 1, byddai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau i gael ei ddiweddarau er mwyn dangos y data mwyaf cywir a fyddai'n arddangos ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Fodd bynnag, bydd Opsiwn 2 hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ardaloedd lle ceir perygl llifogydd gyda Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio ond, yn hollbwysig, bydd terminoleg y map hwn yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15.
- 2.42 Drwy weithredu Opsiwn 2, bydd modd sicrhau bod y broses o ystyried cynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn gyson ac yn glir i bob rhanddeiliad, yn nhermau'r mapiau a ddefnyddir, y gofynion i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r modd y caiff y polisi cynllunio diweddaraf ei gymhwyso.
- 2.43 Nid oes Asesiad Effaith Integredig nac Asesiad o Gystadleuaeth wedi cael eu paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig gan nad yw'r newidiadau arfaethedig yn golygu newid sylweddol. Yn hytrach, ystyrir eu bod yn ymarfer i

gysoni'r gofynion deddfwriaethol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu a gaiff ei ddisodli, a'r derminoleg a geir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15. Caiff y safbwynt hwn ei egluro o dan y ddau opsiwn a amlinellir.

3. Asesiad o Gystadleuaeth (ar gyfer A a B)

- 3.1 Mae prawf hidl cystadleuaeth wedi'i gymhwyso at y diwygiadau arfaethedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

4. Adolygiad ôl-weithredu (ar gyfer A a B)

- 4.1 Mae'r adroddiadau monitro blynyddol a gyflwynir gan Awdurdodau Tân ac Achub i Lywodraeth Cymru o dan Opsiwn 2 yn cynnig ffordd o fonitro perfformiad yr Awdurdodau wrth ymateb i geisiadau ymgynghori. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd a chânt eu hasesu gan Lywodraeth Cymru.
- 4.2 Gall perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub gael ei gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gwasanaethau Cynllunio a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru a chael ei drafod gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yng nghyfarfodydd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.
- 4.3 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru fel ffordd o fonitro perfformiad y corff wrth ymateb i ymgynghoriadau. Caiff yr adroddiadau hyn eu hasesu gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi.
- 4.4 Mae perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth roi caniatâd cynllunio i ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gwasanaethau Cynllunio a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru. Gall hefyd fod yn bwnc trafod rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yng nghyfarfodydd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.
- 4.5 Caiff Cyfarwyddyd Hysbysu newydd ei gyflwyno ar y cyd â'r fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15, a fydd yn cyfyngu ar y posibilrwydd y gall penderfyniadau gael eu gwneud yn groes i bolisi cenedlaethol ar gyfer datblygiadau dan fygythiad mawr yn yr yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Mae hyn yn cynnig ffordd o fonitro natur cynlluniau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cylch.